# Cwricwlwm Cymru: diwygio Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datblygiad Mathemategol; Cymraeg (iaith gyntaf); Saesneg; mathemateg

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



## Cwestiynau cyffredin

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2014

# Cwricwlwm Cymru: diwygio Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio

**Cynulleidfa** Ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen; penaethiaid ac athrawon mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig; awdurdodau lleol Cymru a chonsortia rhanbarthol; undebau athrawon a chyrff cynrychioli; tiwtoriaid hyfforddiant cychwynnol i athrawon; llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yng Nghymru.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen yn darparu amryw o atebion i gwestiynau cyffredin ynghylch Cam 1 yr adolygiad o'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm, gan gynnwys Meysydd Dysgu diwygiedig (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygiad Mathemategol), rhaglenni astudio diwygiedig (Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg) o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4, asesu, TGAU newydd ac adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson.

Bydd yn helpu ysgolion a lleoliadau i ddeall y diwygiadau i'w rhoi ar waith o fis Medi 2015.

**Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen Gweithredu'r FfLlRh
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: curriculumdivision@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Dysgu Cymru Llywodraeth Cymru yn www.dysgu.cymru.gov.uk

**Dogfennau cysylltiedig** *Cwricwlwm Cymru: diwygio Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio – dogfen wybodaeth* (2014); *Cwricwlwm Cymru: diwygio Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio – Rhestr o dermau* (2014); Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Maes Dysgu Datblygiad Mathemategol; Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg; Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 3 Cymraeg; Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg; Key Stage 2 English Programme of Study; Key Stage 3 English Programme of Study; Key Stage 4 English Programme of Study; Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Mathemateg; Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 3 Mathemateg; Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Mathemateg.

ISBN digidol 978 1 4734 2824 9
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22491

# Cynnwys


**Adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu – Meysydd Dysgu (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygiad Mathemategol) a'r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg** **2**

**Asesu gan ddefnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)** **6**

**Adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson o'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol** **7**

**Cymwysterau** **8**

**Cyfnod Sylfaen** **10**

# Adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu – Meysydd Dysgu (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygiad Mathemategol) a'r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg

**Pam ydych chi wedi newid y Meysydd Dysgu ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol, a'r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg?**

Ym mis Hydref 2012, dechreuodd Llywodraeth Cymru ar broses o adolygu elfennau o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru i wneud yn siŵr fod y cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn gydnaws â disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh). Gellir gweld yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.wales.gov.uk/consultations/education/nlnf/?skip=1&lang=cy.

Ym mis Mawrth 2014, yn dilyn ymgynghoriad yr hydref blaenorol ar yr egwyddorion cyffredinol, roedd y rhai yr ymgynghorwyd hwy yn frwd eu cefnogaeth i sefydlu llythrennedd a rhifedd ym meysydd iaith a mathemateg y cwricwlwm, ond cafwyd ymatebion amrywiol i gynigion eraill. Daethom i'r casgliad y dylem:

- adolygu'r Meysydd Dysgu ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Rhifedd a Datblygiad Mathemategol, a'r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg yn barod ar gyfer eu rhoi ar waith yn statudol ym mis Medi 2015 (arweiniwyd hwn at Gam 1)
- cynnal adolygiad annibynnol a chynhwysfawr o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru – mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan yr Athro Graham Donaldson.

**Pryd yr ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig?**

Ym mis Mawrth 2014, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar:

- gynigion am Feysydd Dysgu newydd ar gyfer:
  - Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
  - Datblygiad Mathemategol

- rhaglenni astudio newydd am Gyfnodau Allweddol 2 i 4 ar gyfer:
  – Cymraeg (iaith gyntaf)
  – Saesneg
  – mathemateg
- ychwanegiadau anstatudol i'r FfLlRh.

Cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymgynghori gennym ledled Cymru. Ynddynt gwahoddwyd rhanddeiliaid i drafod y cynigion yn fanwl a darparu adborth uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mehefin 2014.

Bwriad ein cynigion oedd cryfhau'r gwaith o ddysgu ac addysgu llythrennedd a rhifedd yn y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio hyn drwy ddefnyddio'r dull a fabwysiadwyd yn y FfLlRh i greu continwwm dysgu. Mae'r FfLlRh yn parhau'n ofyniad statudol ar draws y cwricwlwm cyfan i ddysgwyr 5 i 14 oed.

**Pryd y bydd y Meysydd Dysgu ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol, a'r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg newydd yn dod yn statudol?**

Bydd y Meysydd Dysgu ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol, a'r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg newydd yn dod yn statudol ym mis Medi 2015. Ni fydd canlyniad adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson yn effeithio ar yr amserlen hon.

**Pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud?**

**Nid** yw'r datblygiadau hyn yn **effeithio** ar statws y FfLlRh fel gofyniad trawsgwricwlaidd statudol.

Does dim cynnwys newydd sylweddol. Mae cydrannau llythrennedd a rhifedd y FfLlRh wedi'u sefydlu ym Meysydd Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol ac yn y rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg.

Mae'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio hefyd wedi cael eu cynllunio fel continwwm dysgu cynhwysol a fydd yn fodd i bob dysgwr wneud cynnydd. Mae cydrannau Ar Drywydd Dysgu ar gyfer llythrennedd a rhifedd wedi cael eu hadolygu hefyd.

Newidiadau strwythurol yw'r prif newidiadau, o ran bod y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio yn gosod disgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn, fel yn y FfLlRh. Maent yn awr yn cynnwys datganiadau o'r FfLlRh. Drwy fformatio, rydym wedi pennu'r datganiadau sy'n berthnasol i'r FfLlRh y gellir eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm yn eu cyd-destun.

Mae'r rhaglenni astudio hefyd yn cyd-fynd â chynnwys manylebau TGAU y cymwysterau newydd a fydd yn cael eu cyflwyno am y tro cyntaf ym mis Medi 2015.

**Pa gymorth fydd ar gael i roi'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio ar waith?**

Bydd pecyn cymorth ar gael, a fydd yn cynnwys:

- llyfryn gwybodaeth ac animeiddiad yn egluro'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig, a fydd yn helpu ysgolion a lleoliadau i baratoi ar gyfer eu rhoi ar waith
- rhaglen o gymorth uniongyrchol a fydd yn cael ei chyflwyno gan y consortia rhanbarthol er mwyn rhoi i ysgolion a lleoliadau yr wybodaeth y bydd ei hangen arnynt i roi'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio newydd hollbwysig hyn ar waith.

Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn 2015.

**Sut bydd y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig (disgrifiadau lefel) yn cael eu hasesu?**

Bydd adroddiad yr Athro Donaldson ar yr adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn 2015. Ar 9 Hydref 2014, rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Gweinidog am y cynnydd sydd wedi cael ei wneud. Yn y diweddariad hwnnw, dywedodd fod ei adolygiad yn debyg o olygu newid 'sylweddol' yn ein cwricwlwm a'r trefniadau asesu – ac y bydd angen rhoi'r newid hwn ar waith dros gyfnod eithaf hirfaith.

Ein nod yw aflonyddu cyn lleied â phosib ar y drefn a sicrhau'r cysondeb mwyaf, ac rydym yn edrych am y ffordd orau o gyflawni hyn yng nghyd-destun adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson.

### Beth am y broses o asesu Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio eraill?

Does **dim newid** i'r trefniadau asesu presennol ar hyn o bryd ar gyfer Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio eraill. Mae'r Athro Donaldson yn edrych ar y rhain fel rhan o'i adolygiad annibynnol.

### Sut y bydd Estyn yn arolygu'r dysgu a'r addysgu o dan gwmpas y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio?

Nid oes gan Estyn fodel y maent yn ei ffafrio ar gyfer y ffordd y bydd ysgolion a lleoliadau'n rhoi'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig ar waith. Bydd yr arolygwyr yn barnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu cyfraniad at ganlyniadau ac nid ar sail unrhyw ddulliau sy'n cael eu ffafrio ganddynt. Yr hyn a fydd yn hollbwysig i Estyn yw a fydd y dulliau a'r sefydliad yn addas i'r diben o sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni gwaith o safon uchel.

### Sut mae'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio yn cysylltu â *Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*?

Mae'r rhain yn cysylltu'n uniongyrchol â *Cymwys am Oes*, sy'n disgrifio'r prif nodau hyd at 2020 ac yn pennu amcanion strategol a fydd yn helpu i sicrhau gwelliannau yn y sector, gan ganolbwyntio ar weithlu cryf, cwricwlwm diddorol, cymwysterau sy'n cael eu parchu'n rhyngwladol, ac arweinwyr addysg yn cydweithio i godi safonau.

# Asesu gan ddefnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)

**Sut yr ydym yn asesu'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio yn erbyn y FfLlRh?**

Daeth yr asesiad ffurfiannol o'r sgiliau yn y FfLlRh yn ofyniad statudol ym mis Medi 2014 ar gyfer pob dysgwr 5 i 14 oed. Gellir cael mwy o wybodaeth ar wefan Dysgu Cymru Llywodraeth Cymru yn www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/lnf-assessment-recording-reporting/?skip=1&lang=cy.

Bydd cynnal asesiad ffurfiannol a pharhaus o'r sgiliau yn y FfLlRh yn dangos cynnydd y dysgwyr a bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm a'r dosbarth. **Ni fydd newid** i'r gofyniad hwn ar ôl cyflwyno'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig.

# Adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson o'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol

**Ar beth mae adolygiad annibynnol Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn canolbwyntio?**

Penodwyd gan y Gweinidog dîm adolygu annibynnol dan arweiniad yr Athro Donaldson i gyflawni adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Gofynnwyd iddo gyflwyno gweledigaeth glir a chydlynol ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4, gan gysylltu'n uniongyrchol â'n system gymwysterau newydd.

**Pryd fyddwn yn cael gwybod canlyniad yr adolygiad o'r cwricwlwm?**

Bydd yr Athro Donaldson yn cyflwyno ei adroddiad ar yr adolygiad sylfaenol o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu (gan gynnwys y cwricwlwm sylfaenol) yn gynnar yn 2015 – ac wedyn bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ei hymateb, gan gynnwys amserlenni ar gyfer gweithredu dros amser.

Fodd bynnag, ar 9 Hydref 2014, rhoddodd yr Athro Donaldson ddiweddariad i'r Gweinidog ar y cynnydd y mae wedi'i wneud. Yn y diweddariad hwnnw, dywedodd fod ei adolygiad yn debyg o olygu newid 'sylweddol' yn ein cwricwlwm a'r trefniadau asesu – ac y bydd angen rhoi'r newid hwn ar waith dros gyfnod eithaf hirfaith.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu ag ymarferwyr ac arweinwyr ysgol er mwyn datblygu cynigion ar gyfer cwricwlwm newydd, a bydd cyfathrebu rheolaidd ag ysgolion.

Mae'n bosibl y bydd yn cymryd cryn amser i weithredu unrhyw newidiadau yn sgîl adolygiad annibynnol Donaldson, ac o gofio am yr angen brys i godi safonau llythrennedd a rhifedd, rydym wedi penderfynu gweithredu'r newidiadau i'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig, fel rhan o Gam 1 yr adolygiad o'r cwricwlwm. O gofio am yr amserlenni sydd wedi'u hawgrymu gan yr Athro Donaldson, bydd y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig hyn yn ddiogel.

# Cymwysterau

**Sut mae hyn yn cyd-fynd â'r cymwysterau TGAU newydd?**

Bydd y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig yn cael eu cyflwyno ym mis Medi 2015 ar yr un pryd ag y bydd y cymwysterau TGAU newydd mewn pynciau iaith a mathemateg yn cael eu dysgu am y tro cyntaf. **Mae hyn yn gwbl fwriadol**, ac mae'n gyfle unigryw i gysoni datblygiad y cymwysterau a'r cwricwlwm diwygiedig â'r FfLlRh. Mae hefyd yn dangos ein hymrwymiad i roi i ddysgwyr y sgiliau y mae arnynt eu hangen ar gyfer y byd modern a'r swyddi y mae ein heconomi eu hangen.

Mae cynnwys y rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg yn adlewyrchu gofynion cynnwys y cymwysterau TGAU diwygiedig mewn:

- Llenyddiaeth Gymraeg
- Llenyddiaeth Saesneg

a'r cymwysterau TGAU newydd mewn:

- Cymraeg Iaith
- Saesneg Iaith
- Mathemateg
- Mathemateg – Rhifedd.

**Sut bydd y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig (a fydd yn statudol o fis Medi 2015) yn cael eu cysoni â'r canllawiau a'r gefnogaeth rydym yn ei derbyn yn barod ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd?**

Bydd y cymwysterau TGAU newydd hefyd yn cael eu dysgu o fis Medi 2015. Er mwyn paratoi ar gyfer rhoi'r rhain ar waith rydym yn:

- gweithio gyda'r consortia rhanbarthol i ddarparu cymorth ac adnoddau newydd i athrawon er mwyn gwella eu gallu – er ein bod yn canolbwyntio ar athrawon Cyfnod Allweddol 4, mae'r consortia rhanbarthol hefyd yn pennu dulliau ar gyfer lledaenu'r arferion da a'r technegau newydd i athrawon eraill er mwyn i ysgolion ac athrawon weithio i gefnogi'i gilydd er mwyn creu system sy'n gwella'i hun

- comisiynu cymorth ychwanegol ar gyfer y FfLlRh i athrawon sy'n gweithio gyda dysgwyr Blwyddyn 9 yn 2014–15, gan ein bod yn cydnabod yr angen i gefnogi'r garfan benodol hon gan mai hwy fydd y cyntaf i astudio'r cymwysterau TGAU newydd – bydd yn canolbwyntio ar gefnogi athrawon sy'n gyfrifol am lythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm a bydd yn rhan o'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) ehangach ar gyfer llythrennedd a rhifedd; bydd y gefnogaeth ychwanegol yn cael ei datblygu a'i darparu mewn ymgynghoriad agos â'r consortia rhanbarthol, ac â CBAC, i sicrhau ei bod yn ategu ac nid yn dyblygu gwaith y cynghorwyr TGAU newydd ymhob rhanbarth.

**Pa gymwysterau TGAU newydd gafodd eu hachredu ym mis Hydref 2014?**

- TGAU Mathemateg – Rhifedd.
- TGAU Mathemateg.
- TGAU Llenyddiaeth Gymraeg.
- TGAU Cymraeg Iaith.
- TGAU Llenyddiaeth Saesneg.
- TGAU Saesneg Iaith.

Gellir gweld manylebau ar wefan CBAC yn www.cbac.co.uk/supporting/wjec-qualifications-in-wales.html?language_id=2.

# Cyfnod Sylfaen

**Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud i Feysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen?**

Mae'r Meysydd Dysgu ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn cael eu cyflwyno bellach ar ffurf disgwyliadau grŵp blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i'r Cyfnod Sylfaen ac mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi dangos yr ymrwymiad hwn yn glir yn ei ymateb i'r archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen a gynhaliwyd gan yr Athro Iram Siraj ym mis Mawrth 2014. Bwriad y newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith yw:

- gwneud yn siŵr fod y pwyslais ar ddarpariaeth ar gyfer cam priodol datblygiad y plentyn yn y Cyfnod Sylfaen
- gwneud yn siŵr fod y Meysydd Dysgu hyn yn gontinwwm dysgu i adael i ymarferwyr asesu ar ba lefel y mae plentyn ar hyn o bryd a beth ddylai eu 'camau nesaf' fod – nid cyfres mohonynt o sgiliau ar wahân i'w dysgu a'u dangos bob blwyddyn, ac mae'r continwwm yn helpu ymarferwyr/athrawon i ganfod cryfderau unigol ac anghenion dysgu i'r dyfodol
- gwneud yn siŵr fod ymarferwyr yn parhau i gael eu hannog i gefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy ddarpariaeth gytbwys o brofiadau dysgu gweithredol a phrofiadau dysgu drwy chwarae a arweinir gan y plentyn a'r oedolyn, a hefyd drwy wneud y mwyaf o gyfleoedd dysgu a gynlluniwyd a chyfleoedd dysgu ar hap. Dyna pam yr ydym wedi cynnwys ystod o ddatganiadau diwygiedig ar gyfer addysgeg y Cyfnod Sylfaen ar ddechrau pob Maes Dysgu. **Nid** yw'r Meysydd Dysgu diwygiedig a'r FfLlRh yn golygu mynd yn ôl i ddysgu llythrennedd a rhifedd i'r dosbarth cyfan yn y Cyfnod Sylfaen.

**Beth sy'n digwydd gyda'r asesiad o'r Proffil Cyfnod Sylfaen?**

Bydd y Proffil Cyfnod Sylfaen sy'n cael ei gyflwyno ym mis Medi 2015 yn cefnogi asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen drwy arsylwi gydag asesiad llinell sylfaen yn cael ei gynnal yn y dosbarth Derbyn. Bydd yn gymorth i olrhain cynnydd plentyn hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Un elfen fydd y Proffil Cyfnod Sylfaenol o Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar ehangach. Ei fwriad yw darparu ffordd o olrhain datblygiad plant o 0 i 7 oed. Bydd y fframwaith yn cysylltu'r Proffil Cyfnod Sylfaen â dulliau asesu eraill fel y Rhestr Sgiliau Tyfu 2 sydd eisoes yn cael ei defnyddio ar gyfer plant Dechrau'n Deg.